

25 Mehefin 2019

Annwyl gyfaill,

Gŵyl Gyhoeddi Eisteddfod Urdd Sir Ddinbych 2020

I groesawu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i ardal Sir Ddinbych hoffwn wahodd disgyblion, athrawon, rhieni a chefnogwyr yr Eisteddfod i ŵyl gyhoeddi fawreddog ym Mhrestatyn ar ddydd Sadwrn 5ed o Hydref 2019. Felly cadwch y dyddiad yn glir yn y dyddiadur!

Yr orymdaith hon fydd yr uchafbwynt i ddathlu dyfodiad [Eisteddfod yr Urdd i Sir Ddinbych rhwng 25 a 30 Mai 2020](#).

Amserlen Arfaethedig

- **11:00 o'r gloch:** Pawb i ymgynnull ar faes astro Ysgol Uwchradd Prestatyn
- **11:30 o'r gloch:** Yr orymdaith yn cychwyn gan ddilyn llwybr drwy tref Prestatyn tuag at erddi Bastion
- **12:00 o'r gloch:** Adloniant a Stondinau amrywiol ar ddiwedd yr orymdaith
- **3:00 o'r gloch:** Gweithgareddau'r Ŵyl Gyhoeddi yn dirwyn i ben

Byddwn yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau ac adloniant ynghyd a stondinau fydd yn gwerthu nwyddau Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020.

Cystadleuaeth Baneri Ysgolion

Anogir yr Ysgol i ddylunio baner gydag enw'r ysgol arni i'w chario wrth orymdeithio. Ni ddylai'r faner fod yn fwy na 3m x 2m. Bydd y faner orau yn derbyn **gwobr ariannol** felly ewch ati i greu baner liwgar a thrawiadol! Bydd holl faneri yn cael eu harddangos ar faes yr Eisteddfod felly cadwch eich gafael arnynt hyd ddiwedd Mai.


Mae'n argoeli i fod yn ddiwrnod gwerth chweil i blant a phobl ifanc yr ardal ac yn gyfle i greu argraff ar Gymru gyfan! Ein hamcan yw tynnu sylw at ymweliad yr Eisteddfod â'r ardal felly mawr obeithiaf y byddwn yn cael eich cwmni a'ch cefnogaeth ar y diwrnod.

Cyhoeddir mwy o wybodaeth ar ddechrau'r tymor newydd ond mae croeso ichi gysylltu â mi yn y cyfamser.

Yn gywir iawn,

Steffan Prys

Trefnydd Cynorthwyol Adran yr Eistedd
Gwersyll yr Urdd Glan-llyn, Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd, LL237ST
steffanprys@urdd.org // 01678541015



25 June 2019

Dear friend,

Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020 Proclamation Event

To welcome Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd to Denbighshire the Urdd extends a warm and sincere welcome to all pupils, teachers, parents and school supporters' to attend the Proclamation Event in Prestatyn on Saturday 5th October 2019. Please keep the date clear in your diary!

The parade will be the pinnacle to celebrate the Eisteddfod's visit to Denbighshire between 25 and 30 May 2020.

Proposed Timetable

- **11:00 o'clock:** All participants to congregate on Prestatyn High School Astroturf
- **11:30 o'clock:** Parade starts and follows a designated route through the town towards Bastion Gardens
- **12:00 o'clock:** Activities begin at Bastion Gardens including live music and various stalls
- **3:00 o'clock:** Activities ceases, and the Proclamation Event comes to an end.

Numerous activities will be held on the promenade and on the beach where you can purchase 2020 Urdd Eisteddfod merchandise and meet Mistar Urdd!

Banner Competition

All schools and clubs attending the event are encouraged to design and produce a banner to be displayed during the parade. The banner should not be more than 3m x 2m in size and the winning banner's school will receive a **financial prize**! Keep hold of your banners as they'll be displayed on the Urdd Eisteddfod maes.

It promises to be a wonderful and memorable occasion for all. Our aim is to create as much publicity as possible and we hope you and your school or college / Urdd branch can attend and support us on the day.

Further information will be distributed early in the new school term with further instructions. Don't hesitate to get in touch if you have any questions.

Yours sincerely,

Steffan Prys

Trefnydd Cynorthwyol Adran yr Eistedd
Gwersyll yr Urdd Glan-Ilyn, Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd, LL237ST
steffanprys@urdd.org // 01678541015